At: Swyddogion Cyfrifol Cyrff Dyfarnu Cydnabyddedig

Anfonwyd drwy e-bost

31 Mawrth 2022

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Cyhoeddi Polisi Rheoli Digwyddiadau diwygiedig

Yn dilyn adolygiad a drefnwyd, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu ein bod bellach wedi cyhoeddi Polisi Rheoli Digwyddiadau wedi'i ddiweddaru, a elwid gynt yn 'Polisi Rheoleiddiol ar Reoli Digwyddiadau'. Mae'r polisi yn nodi sut y dylai Cyrff Dyfarnu roi gwybod i ni am ddigwyddiadau sydd wedi neu a allai gael effaith andwyol yn unol ag Amod Cydnabod Safonol B3, a'r broses y byddwn yn ei dilyn ar gyfer rheoli digwyddiadau o'r fath.

Er mwyn cyd-fynd yn agosach â'r iaith a therminoleg a ddefnyddir yn Amod B3 o'n Hamodau Cydnabod Safonol, rydym wedi penderfynu ailenwi'r polisi fel ein 'Polisi Rheoli Digwyddiadau'. Rydym hefyd wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i wella strwythur ac eglurder cyffredinol y polisi. Er enghraifft, rydym wedi ychwanegu cyfeiriadau at ofynion Amodau B3.2, B3.3 a B3.4, ac wedi diweddaru'r dulliau y gall cyrff dyfarnu roi gwybod i ni am ddigwyddiadau penodol. Nid yw'r newidiadau yma'n cael eu hystyried yn sylweddol, ac nid ydynt yn newid ein gofynion rheoleiddiol mewn unrhyw ffordd.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y newidiadau a wnaed i'r polisi hwn, cysylltwch ag Osian Llywelyn, Pennaeth Polisi Rheoleiddio ar polisi@cymwysteraucymru.org.

Yr eiddoch yn gywir,

J. Richards

Jo Richards
Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org